



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg

2013/14

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Fel sefydliad annibynnol sy'n cael ei ariannu gan arian cyhoeddus, mae'n ofyniad i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg a chyflwyno adroddiad blynyddol ar gynnydd. Derbyniodd y Cynllun, a baratowyd o dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993, gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 16 Awst 2010.

1.2 Dyma'r trydydd adroddiad sydd wedi'i baratoi gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar weithredoedd a gweithrediad cysylltiedig y Cynllun Iaith Gymraeg a chynnydd yn erbyn yr amserlen yn y Cynllun.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar weithgareddau a gynhaliwyd yn y cyfnod o 1 Ionawr 2013 i 31 Rhagfyr 2013.

1.4 Mae gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru bedwar prif amcan, sydd wedi'u nodi yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Y rhain yw:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny.
- Hyrwyddo cyfleoedd sydd ar gael i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu achosion o wahaniaethu yn eu herbyn;
- Annog arfer gorau yn y driniaeth a roddir i bobl hŷn yng Nghymru;
- Adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru;

1.5 Mae Cynllun Iaith Gymraeg Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi ymrwymiad y sefydliad i'r iaith Gymraeg a'i fod yn cefnogi'r egwyddor sy'n sail i Ddeddf Iaith Gymraeg 1993 yn llwyr, sef sicrhau, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ac i'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg, y byddant yn derbyn gwasanaethau o'r un safon uchel â'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r iaith Saesneg.

2.0 Crynodeb a throsolwg

2.1 Mae gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a'i staff, ymrwymiad llwyr i roi triniaeth gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg, a chymryd unrhyw gamau posibl i hyrwyddo rôl allweddol yr iaith Gymraeg drwy ein gwaith. Mae mynd i'r afael â gwahaniaethu yn elfen ganolog o ddyletswyddau cyfreithiol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, ac mae'n ystyried bod ei gwaith yn ategu gwaith Comisiynydd yr Iaith Gymraeg.

2.2 Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn disgrifio'r camau gweithredu a'r cynnydd a wnaed yn ystod 2013. Mae'r Comisiynydd yn hyrwyddo dwyieithrwydd ymarferol y tu hwnt i'r gydymffurfiaeth â'n goblygiadau statudol.

2.3 Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi parhau i wneud cynnydd da yn ei gwaith o weithredu ei Chynllun Iaith Gymraeg, gan sicrhau bod y cynllun wedi'i

ymgorffori yn y sefydliad, a bod pob aelod o staff y sefydliad wedi'u hysbysu'n llawn ynghylch gofynion y cynllun. Mae gweithdrefnau monitro a chofnodi clir wedi'u cyflwyno er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

2.4 Mewn ymateb i'n cynllun monitro yn 2012, mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi gofyn am wybodaeth am gynnydd y tri mater canlynol, i'w cynnwys yn adroddiad monitro 2013:

- Adolygu'r broses gaffael
- Adolygu a gweithredu'r polisi hysbysebu
- Adolygu materion brandio

Mae'r adroddiad yn cynnwys y camau gweithredu a gymerwyd ar y pwyntiau hyn.

2.5 Cyflwynir crynodeb o'n gweithgareddau yn 2013 a'n cynlluniau ar gyfer 2014 yn yr atodiad.

3.0 Atebolrwydd a monitro

3.1 Mae'r Comisiynydd wedi cynnal proses ailstrwythuro sefydliadol llawn ers yr adroddiad monitro diwethaf.

3.2 Fel rhan o'r ailstrwythuro sefydliadol, penodwyd tîm strategol newydd o Gyfarwyddwyr:

- Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad
- Cyfarwyddwr Lles a Grymuso
- Cyfarwyddwr Diogelu, Craffu a Hawliau Dynol
- Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu

3.3 Mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo'r prif atebolrwydd dros gyflenwi Cynllun Iaith Gymraeg y Sefydliad i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, gan sicrhau bod proffil uchel o fewn ac ar draws y sefydliad.

3.4 O fewn y fframwaith atebolrwydd hwn, mae pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am oruchwylio'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn eu timau hwy.

3.5 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i ddsbarthu i bob aelod o staff er mwyn eu hysbysu ynghylch gofynion yr Iaith Gymraeg, a bydd pob aelod o staff newydd yn derbyn copi o'r cynllun yn ystod y cyfnod sefydlu.

4.0 Busnes craidd

4.1.1 Nid yw'r Comisiynydd yn darparu gwasanaethau rheng flaen i bobl hŷn, ar wahân i'r cyngor a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol i bobl hŷn gan y tîm Ymholiadau a Chymorth a'r gwaith sy'n cael ei arwain gan y tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu i gynnal digwyddiadau a chynhyrchu cyhoeddiadau. Mae'r rhan fwyaf

o'n busnes yn ymwneud â gweithio gydag eraill i gyflwyno newidiadau i bolisiâu ac arferion. Rydym hefyd yn comisiynu gwaith ymchwil ac yn cynhyrchu nifer o gyhoeddiadau.

4.1.2 Mae gan y Comisiynydd 28 o gyflogeion mewn pedwar tîm craidd. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiynydd yn cyflogi saith siaradwr Cymraeg rhugl a thri dysgwr Cymraeg uwch, ac mae pob aelod o staff yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

4.2 Ymholiadau a chymorth

4.2.1 Mae'r sefydliad yn cofnodi dewis iaith pob ymholwr ar ein System Rheoli Busnes, er mwyn i ni allu gohebu neu ymgysylltu â phobl yn eu dewis iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r ohebiaeth a'r ymholiadau sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, neu pan fydd dymuniad y galwr i gyfathrebu yn Gymraeg yn cael ei nodi'n gynnar, yn ymwneud ag:

- Ymholiadau gan bobl hŷn a'u heiriolwyr
- Cyswllt gan awdurdodau cyhoeddus
- Ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau
- Pobl sy'n ymweld â'r swyddfa sy'n siarad Cymraeg
- Cyswllt wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid

4.2.2 Mae pob ymholiad yn cael eu rheoli drwy'r System Rheoli Busnes gan Weinyddwr/Derbynnydd Dwyieithog, a fydd yn trosglwyddo'r galwr i aelod o'r Tîm Ymholiadau a Chymorth. Mae pob un o'r tri aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg. Hefyd, mae'r Swyddog Achosion a Chraffu yn ddwyieithog. Y prif ddulliau a ddefnyddir i gyfathrebu gyda phobl hŷn yw drwy lythyr, e-bost, dros y ffôn ac i raddau llai, drwy gyswllt wyneb yn wyneb. Mae'r sefydliad yn gallu darparu cymorth i bobl hŷn yn eu hiaith eu hunain.

4.3 Gwasanaethau sy'n cael eu caffael

4.3.1 Mae'r mwyafrif o wasanaethau sy'n cael eu darparu drwy gontract i'r Comisiynydd yn wasanaethau uniongyrchol er budd y sefydliadau eu hunain, yn hytrach na gwasanaethau sy'n cael eu darparu fel cyfryngwyr i'r cyhoedd. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael yn cynnwys:

- Nwyddau a gwasanaethau diriaethol sy'n galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol
- Gwasanaethau cynghori a chasglu gwybodaeth
- Cynnal archwiliadau a rhoi cyngor cyfreithiol
- Gwasanaethau cyfieithu, prawf ddarllen, cysodi, dylunio ac argraffu
- Mae gan y sefydliad gontract gyda dau gwmni sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu safonol ac amserol, sy'n cyflawni ein holl anghenion cyfieithu ysgrifenedig.

4.3.2 Pan fydd partïon dan gontract yn ymgymryd â gwaith sy'n cael effaith uniongyrchol ar allu'r sefydliad i ryngweithio â'r cyhoedd, byddant yn cael eu

hysbysu ynghylch ein Cynllun Iaith Gymraeg, a chyfeirir at y disgwyliadau yn y fanyleb ac yn y contractau dilynol. Mae rhai o'n contractau, yn amodol ar y trothwyon perthnasol, yn destun proses dendro ffurfiol. Croesewir ceisiadau yn yr iaith Gymraeg, a byddant yn cael eu prosesu yn yr un ffordd ac o fewn yr un amserlen.

4.3.3 Mae swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i adolygu ein gweithdrefnau caffael yn rheolaidd. Nid ydym yn gosod unrhyw un o'n swyddogaethau statudol fel corff statudol ar gontract allanol. Rydym yn cyfeirio at ein Cynllun Iaith Gymraeg a'n Cynllun Cydraddoldeb ym manylebau ein tendrau, er mwyn sicrhau bod darpar gyflenwyr yn ymwybodol o safonau ein gwasanaeth. Pan fydd gofyniad i gyflenwr ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg fel rhan o gontract, gwaith ymchwil er enghraifft, byddwn yn profi eu hymagwedd arfaethedig tuag at hyn yn ystod y camau llunio rhestr fer a chyfweld.

4.4 Cyhoeddiadau

4.4.1 Mae unrhyw ddeunydd y bwriedir i'r cyhoedd yng Nghymru ei ddefnyddio yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog. Mae hyn yn cael ei reoli a'i fonitro gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

4.4.2 Mae adroddiadau a thafleuni sy'n cael eu hargraffu a'u dosbarthu fel copïau caled yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio'r dull dylunio wyneb i waered, ac eithrio pan ystyrir bod maint y ddogfen yn rhy fawr. Yn yr achosion hyn, bydd copïau Cymraeg a Saesneg yn cael eu hargraffu ar wahân.

4.4.3 Yn ystod 2013, mae pob adroddiad a thaflen sydd wedi'u cynhyrchu wedi bod yn ddwyieithog ac yn dilyn y dyluniad wyneb i waered. Er enghraifft, Fframwaith Gweithredu 2013-2017, Adroddiad ar Effaith a Chyrhaeddiad 2012-13, Adroddiad Mil o Fân Rwystrau a'r daflen Adolygiad o Gartrefi Gofal.

4.4.4 Mae'r Comisiynydd yn cynhyrchu pedwar math o ddogfennau:

- Cyhoeddiadau ar gyfer cynulleidfaoedd allanol. Mae'r rhain bob amser ar gael yn ddwyieithog.
- Dogfennau sy'n hysbysu gwaith y Comisiynydd ond nad oes bwriad gwreiddiol i'w rhannu gyda'r cyhoedd. Mae'r mwyafrif o ddogfennau o'r fath yn ymwneud â data ymchwil crai sy'n cael ei gomisiynu gan ffynhonnell academaidd. Pe byddai'r ddogfen hon yn cael ei rhannu gyda'r cyhoedd, yna byddai'n cael ei chyfieithu.
- Erthyglau ar gyfer y cyfryngau. Mae'r rhain yn cael eu cynhyrchu yn iaith wreiddiol y cais gan y cyfryngau. Pe byddai'r erthygl yn cael ei hatgynhyrchu ac yn cael ei chyhoeddi ar y wefan, yna byddai'r erthygl yn cael ei chyfieithu i'r Gymraeg / Saesneg ar y pwynt hwnnw.
- Dogfennau mewnol y byddai'r Comisiynydd yn credu sydd wedi'u heithrio o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Bydd y dogfennau hyn ar gael yn eu hiaith wreiddiol yn unig.

Bydd unrhyw ddogfennau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y categorïau hyn yn cael eu hystyried ar sail achosion unigol gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

4.4.5 Mae pob dogfen wybodaeth sy'n cael ei darparu ar gyfer gwleidyddion a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

4.4.6 Mae pob ymateb ymgynghori yn cael eu cyfieithu hefyd pan fyddant yn cael eu llwytho i'r wefan.

4.4.7 Mae copïau dwyieithog ar gael ar gais o ddogfennau sy'n cael eu paratoi i gynulleidfaeod allanol, e.e. fersiwn sain a Braille Cymraeg o'n Hadroddiad ar Effaith a Chyrhaeddiad 2012-13. Mae'r fersiwn Braille Cymraeg yn newydd, ac mae'n debyg mai nifer fach o bobl hŷn fyddai'n defnyddio'r fersiwn hwn. Mae'n debyg mai nifer fach o bobl fyddai hefyd yn defnyddio'r fersiwn sain Cymraeg ac ar y sail hon credwn y gallwn ddarparu hyn fel gwasanaeth ar gais. Rydym wedi trefnu i gynhyrchydd gynhyrchu copïau ar fyr rybudd pan fydd yr angen yn codi.

5.0 Cyfathrebu â'r Cyhoedd yng Nghymru

5.1 Ffurflenni ac arolygon

5.1.1 Gellir cwblhau pob ffurflen ac arolwg sy'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg yn y naill iaith neu'r llall. Ymhlith yr enghreifftiau o ddogfennau o'r fath yn 2013 mae holiadur sy'n gofyn beth yw'r pethau gorau a'r pethau gwaethaf ynglŷn â heneiddio, casglu gwybodaeth ar gyfer Adroddiad 'Mil o Fân Rwystrau', galwad ffôn dilynol i 'Gofal gydag Urddas?', er gwybodaeth, a holiadur ar gyfer yr Adolygiad o Gartrefi Gofal Preswyl.

5.2 Gohebiaeth

5.2.1 Wrth ddarparu ein gwasanaeth, rydym yn sicrhau y rhoddir statws cyfartal i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg. Mae safonau gwasanaeth cyfartal yn berthnasol wrth ddelio ag ymholiadau mewn gohebiaeth Cymraeg a Saesneg o bob math.

5.2.2 Er mwyn sicrhau gwasanaeth cyfartal wrth ddelio â gohebiaeth Cymraeg, rydym yn cyflogi saith aelod o staff sydd â sgiliau ysgrifenedig Cymraeg a Saesneg (sy'n cynrychioli chwarter ein gweithlu), yn cynnwys pob un o'r tri aelod o'r Tîm Ymholiadau a Chymorth a dau o'r tri aelod o'r Tîm Gweinyddu a Chymorth.

5.2.3 Mae pob gohebiaeth, waeth beth yw'r iaith a ddefnyddir, yn cael eu prosesu yn unol â thargedau perfformiad a safonau gwasanaeth penodol. Mae'r rhain yn cael eu monitro drwy ein System Rheoli Busnes.

5.2.4 Mae pob gohebiaeth ffurfiol gyda chyrrff amrywiol, e.e. hysbysiadau ynglŷn ag Adolygiadau, yn cael ei darparu'n ddwyieithog.

5.2.5 Mae unrhyw negeseuon e-bost a dderbynnir yn yr iaith Gymraeg yn cael eu prosesu i'r un safonau amser â negeseuon e-bost Saesneg. Mae pob aelod o staff

yn defnyddio llofnodion e-bost dwyieithog.

5.2.6 Rydym wedi prynu copi o Y Geiriadur Mawr ac mae pob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg wedi derbyn pecyn meddalwedd Cysgliad.

5.3 Galwadau Ffôn

5.3.1 Y pwynt cyswllt cyntaf i bobl sy'n ffonio swyddfa'r Comisiynydd yw ein derbynnyddion. Mae dau aelod o'r tîm hwn sy'n ateb y ffôn yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

5.3.2 Mae ein Tîm Ymholiadau a Chymorth yn darparu cyngor wedi'i deilwra i ymholiadau Cymraeg neu Saesneg. Mae pob un o'r tri aelod o staff y tîm hwn yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

5.3.3 O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae siaradwr Cymraeg ar gael bob amser i ddelio ag ymholiadau. Mae arferion clir a chofnodadwy wedi'u sefydlu i drosglwyddo galwadau i siaradwr Cymraeg os bydd galwad yn cael ei hateb gan berson nad yw'n gallu siarad Cymraeg.

5.3.4 Mae negeseuon ar y peiriant ateb y tu allan i'r oriau swyddfa wedi'u recordio'n ddwyieithog.

5.3.5 Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant i sicrhau eu bod yn ateb y ffôn yn ddwyieithog ac i drosglwyddo galwadau i aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl yr angen.

5.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus

5.4.1 Pan fydd cyfarfodydd cyhoeddus/cynadleddau yn cael eu trefnu, gofynnir i wahoddedigion hysbysu swyddfa'r Comisiynydd ymlaen llaw, ar y ffurflen archebu, os bydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd arnynt. Anfonir gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi gwybodaeth am y digwyddiad yn ddwyieithog at ddirprwyon a darperir cyfleusterau cyfieithu ar y pryd, a ddarparwyd yn nigwyddiad lansio'r Adroddiad ar Effaith a Chyrhaeddiad yn y Senedd ym mis Mehefin 2013. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn pecynnau yn ddwyieithog, yn ogystal ag unrhyw adroddiad sy'n cael ei gynhyrchu ar ôl digwyddiad.

5.4.2 Rydym yn dilyn canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt ar drefnu/cynnal cyfarfodydd dwyieithog.

5.4.3 Rydym yn dilyn rhestr wirio i gefnogi'r gwaith o gynllunio a chynnal digwyddiadau sy'n cael eu trefnu. Mae'r rhestr wirio hon yn cynnwys ystyried gofynion ieithyddol.

5.5 Ymweliadau personol

5.5.1 Mae swyddfa'r Comisiynydd yn cynnig cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn bennaf ar gyfer pobl sy'n ei chael yn amhosibl neu'n afresymol o anodd i ddefnyddio'r ffôn.

Bydd galwyr personol sy'n dymuno cael cyfweliad wyneb yn wyneb wedi'i drefnu ymlaen llaw, gallant gael cyfweliad yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnig yn rhagweithiol yn y Gymraeg, ac mae aelodau'r tîm Cyngor a Chymorth yn gallu nodi pan fydd angen cyfweliad wyneb yn wyneb o'r fath. Ni chynhaliwyd unrhyw gyfweliadau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2013.

6.0 Hunaniaeth Gorfforaethol y Sefydliad

6.1 Mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i fod yn sefydliad dwyieithog, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog, sy'n cynnwys:

- Logo dwyieithog
- Papur pennawd dwyieithog
- Taflenni cyfarch dwyieithog
- Anfonir pob hysbysiad i'r cyfryngau yn ddwyieithog
- Mae pob deunydd a gyhoeddir yn ddwyieithog
- Gwefan Gymraeg/Saesneg cyfatebol
- Cyfrifon Twitter cyfatebol
- Cardiau busnes dwyieithog
- Deunyddiau arddangos dwyieithog

6.2 Ym mis Chwefror 2013, cafodd negeseuon brandio'r sefydliad eu hadolygu gan y Comisiynydd. Yn ystod y broses hon, cafodd pob un o'r negeseuon allweddol eu datblygu a'u cymeradwyo yn Gymraeg a Saesneg. Cytunwyd hefyd y byddai logo dwyieithog y sefydliad yn cael ei ddefnyddio ar unrhyw ddeunydd.

6.3 Ym mis Mawrth 2013, cafodd swyddfa'r Comisiynydd ei hail-addurno gyda lluniau o'r bobl hŷn yr ydym wedi cwrdd â hwy fel rhan o'n Taith Ymgysylltu, yn ogystal â stensilio negeseuon allweddol ar furiau'r Comisiynydd. Mae'r negeseuon allweddol wedi'u stensilio yn Gymraeg a Saesneg yn y brif swyddfa ac yn ein hystafelloedd cyfarfod.

7.0 Cyhoeddusrwydd

7.1 Gwefan

7.1.1 Mae gwefan y sefydliad yn gwbl ddwyieithog, a cheir safleoedd Cymraeg a Saesneg sy'n gwbl gyfatebol. Mae'r deunyddiau yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg yr un pryd.

Mae'r wefan wedi'i diweddarau a bydd yn cael ei lansio ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2014.

7.1.2 Mae gan y Comisiynydd gyfrifon Twitter cyfatebol Cymraeg a Saesneg, ac mae'n annog staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu eu negeseuon trydar gwreiddiol yn Gymraeg.

7.2 Datganiadau i'r Wasg a Hysbysebu

7.2.1 Cyhoeddir pob datganiad i'r wasg yn Gymraeg a Saesneg ac maent yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar ein gwefan. Rhoddir manylion cyswllt unigolyn sy'n gallu siarad Cymraeg, sef y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, ar bob datganiad. Mae'r swyddog y wasg a chyfathrebu newydd yn gallu siarad Cymraeg hefyd. Yr unig eithriad i ddarparu copi dwyieithog yw pan fyddwn yn darparu sylw neu ymateb i gyhoeddiad Saesneg yn unig e.e. sylw yn y Western Mail neu gyhoeddiad Cymraeg yn unig e.e. sylw yn Golwg. Os bydd y sylw hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan wedi hyn, bydd ar gael yn y ddwy iaith.

7.2.2 Pan fydd yn bosibl, rydym yn cynnal cyfweiliadau Cymraeg a Saesneg gyda'r cyfryngau, yn ôl y gofyn, ac yn annog sylw gan y cyfryngau drwy'r wasg Gymraeg lleol a chenedlaethol.

8.0 Recriwtio a staffio

8.1 Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu protocol ar gyfer hysbysebu ar gyfer swyddi ac mae'n croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg ar gyfer unrhyw swyddi gwag yn y sefydliad.

Mae gan y Comisiynydd weithdrefnau ar waith i nodi pa swyddi y mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, yn cynnwys adolygu rolau presennol pan fydd swydd-ddisgrifiadau yn cael eu diweddarau. Hefyd, gofynnir i bob Cyfarwyddwr newydd ystyried y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd newydd sy'n cael ei chreu, yng nghyd-destun y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer y swydd yn ogystal â'r rhai sydd eu hangen yn y tîm ehangach ac ar draws y sefydliad cyfan. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiynydd wedi recriwtio pobl i nifer o swyddi, a nodwyd bod yr iaith Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer rhai ohonynt ac yn ddymunol ar gyfer swyddi eraill, yn seiliedig ar ofynion y swydd ac anghenion y sefydliad yn gyffredinol. Mae'r Comisiynydd wedi cynnal cyfweiliadau recriwtio hefyd drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn rhannol, lle nodwyd bod yr iaith Gymraeg yn ofyniad hanfodol.

Bydd hysbysebion recriwtio a swydd-ddisgrifiadau yn nodi a yw'r iaith Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol iawn. Pan fydd swydd wedi nodi bod y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol, bydd hysbysebion recriwtio yn cael eu cyhoeddi yn y cyfryngau Cymraeg. Fodd bynnag, mae pob hysbyseb yn ddwyieithog lle bynnag y byddant yn cael eu cyhoeddi. Cynhelir cyfweiliadau recriwtio yn ddwyieithog hefyd os bydd y swydd wedi'i nodi fel un sydd angen sgiliau Cymraeg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiynydd wedi hysbysebu swyddi gwag yn y cyfryngau Cymraeg, yn cynnwys safle swyddi, lleol.net a Golwg, a derbyniodd ddau gais recriwtio wedi'u cwblhau yn Gymraeg.

Pan fydd swydd sy'n cael ei hysbysebu yn nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, ac os na fydd rhywun yn cael ei benodi i'r swydd, bydd y swydd yn cael ei hail-hysbysebu gyda'r un gofynion, ond bydd yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn

ddymunol, er mwyn galluogi pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i wneud cais am y swydd. Yn yr achos hwn, os bydd unigolyn nad yw'n gallu siarad Cymraeg yn cael ei benodi, byddant yn derbyn anogaeth a chefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg pan fyddant wedi dechrau yn y swydd. Yn ystod 2013, cafwyd dau achlysur pan na lwyddodd y Comisiynydd i benodi pobl i swyddi a oedd wedi nodi bod sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn hanfodol, a'i bod wedi penderfynu wedi hynny i ail-hysbysebu'r swyddi fel rhai lle'r oedd sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn ddymunol, er mwyn galluogi pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i wneud cais amdanynt. Mae'r ddwy swydd hyn yn rhai cyfnod sefydlog, er mwyn rhoi cyfle i'r Comisiynydd ail-asesu gofynion iaith Gymraeg y swyddi unwaith eto yn y dyfodol.

8.2 Mae canllaw ar recriwtio siaradwyr Cymraeg wedi'i gynnwys yn y polisi recriwtio.

8.3 Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cynhyrchu o hysbysebion swyddi a phhecynnau recriwtio. Gofynnwn i ymgeiswyr ddatgan lefel eu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg fel rhan o'n proses gwneud cais am swyddi.

8.4 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei gynnwys fel rhan o'r broses sefydlu ar gyfer aelodau o staff newydd. Fel sefydliad cymharol ifanc, lle mae'r mwyafrif o'r staff wedi dechrau yn eu swyddi o 2009 ymlaen, mae pob aelod o staff yn cymryd rhan mewn proses sefydlu dan arweiniad, sydd wedi cynnwys cyfeiriad cryf at yr iaith Gymraeg a'n Cynllun o'r cychwyn cyntaf.

8.5 Mae'r Comisiynydd yn cyflogi saith aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n delio â'r cyhoedd, yn cynnwys tri aelod o'r Tîm Ymholiadau a Chymorth, Swyddog Gwaith Achos a Chraffu a dau Swyddog Gweinyddu a Chymorth sy'n meddu ar sgiliau ysgrifenedig Cymraeg a Saesneg. Yn ogystal, mae ein Swyddog Arwain Cymunedau, Llywodraeth Leol a Lles yn siaradwr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gallu delio â galwadau ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig Cymraeg a Saesneg i'r un safon. Rydym hefyd yn cyflogi tri aelod o staff sy'n ddysgwyr Cymraeg uwch, ac mae dau ohonynt wedi bod yn mynychu dosbarthiadau nos Cymraeg yn ystod 2013.

8.6 Cynhaliodd y sefydliad 'Ddiwrnod Shwmae' ar 15 Hydref pan gafodd y cyflogeion eu hannog i ddefnyddio cymaint o Gymraeg ag y gallant, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu dim ond dweud Shwmae yn hytrach na Helo, neu Diolch yn hytrach na Thank you. Trefnwyd y digwyddiad hwn gan nifer o sefydliadau iaith Gymraeg gwahanol, er mwyn annog pobl ar hyd a lled Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg a dechrau pob sgwrs gyda Shwmae.

8.7 Mae gweithredu mewn amgylchedd dwyieithog yn egwyddor graidd sy'n cael ei chefnogi gan y staff o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymrwymiad personol cryf y rhan fwyaf o'r staff a'r timau i ddwyieithrwydd. Yn ogystal â'r broses sefydlu a sesiynau gloywi ymwybyddiaeth, mae'r sefydliad yn manteisio ar gyfleoedd anffurfiol hefyd i alluogi siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i gael cyfle i siarad Cymraeg yn y gweithle. Mae hysbysfyrddau dwyieithog ar gael ac

rydym yn annog pobl i arddangos deunydd Cymraeg.

9.0 Gweithredu a Monitro'r Cynllun

9.1 Y Comisiynydd sydd â'r atebolrwydd cyffredinol am gyflenwi, monitro ac adolygu'r Cynllun, ac mae'r atebolrwydd hwn wedi'i ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

9.2 Mae pob tîm unigol yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd wrth ddarparu eu gwaith. Y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n gyfrifol am ddogfennau allanol a'r wefan.

9.3 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gael ar y wefan yn http://www.olderpeoplewales.com/wl/news/news/11-04-01/Welsh_Language_Scheme.aspx

9.4 Cynghorir aelodau'r cyhoedd i gyfeirio unrhyw gwynion ynglŷn â methiant i gydymffurfio â gofynion y Cynllun i Reolwr Cwynion y Comisiynydd. Nid oes unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u derbyn hyd yma, ac rydym wedi derbyn canmoliaeth am safon uchel ein deunydd sydd wedi'i gyfieithu.

Atodiad

Camau gweithredu parhaus

Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad		
Camau i'w cymryd	Targed a chynnydd	Cyfeirnod y Cynllun Iaith Gymraeg
Parhau i recriwtio a chadw staff sydd â chymwysterau addas ac sy'n gallu siarad Cymraeg	Mis Mawrth 2010 yn wreiddiol yna ar sail barhaus. Mae yna saith aelod o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar hyn o bryd, a thri dysgwr Cymraeg uwch. Mae dau aelod o staff parhaol sy'n gallu siarad Cymraeg ac un dysgwr Cymraeg uwch wedi'u recriwtio yn ystod y cyfnod adrodd.	5. Gweithredu a monitro, a) recriwtio
Datblygu hysbysebion swyddi a gwybodaeth i'r pecyn recriwtio yn ddwyieithog	Erbyn mis Mawrth 2010 yn wreiddiol ac yna ar sail barhaus. Mae hysbysebion swyddi a phhecynnau recriwtio dwyieithog ar gael yn safonol pan fydd swyddi'n cael eu hysbysebu.	5. Gweithredu a monitro, a) recriwtio
Archwiliad parhaus o fedrau Cymraeg y staff cyfredol	Cwblhawyd yr archwiliad yn 2013. Mae saith aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac mae tri aelod o staff eraill yn ddysgwyr Cymraeg uwch. Mae hyn yn cynrychioli ychydig dros chwarter o'r holl staff.	5. Gweithredu a monitro, a) recriwtio
Cynnal a diweddarau cofnod canolog o'r staff sy'n medru'r Gymraeg	Datblygwyd yn wreiddiol ym mis Mai 2010 ac mae'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd ers hynny	5. Gweithredu a monitro, a) recriwtio

Datblygu hyfforddiant parhaus/hyfforddiant gloywi ar gyfer ymwybyddiaeth Gymraeg	Darparwyd hyfforddiant allanol i'r cyflogeion gan Iaith ar Gyflwyniad i'r Gymraeg a Chwrteisi Ieithyddol Sylfaenol yn ystod 2013, er mwyn adeiladu ar hyfforddiant ymwybyddiaeth blaenorol. Mae'r sefydliad hefyd wedi cefnogi'r 'Diwrnod Shwmae' er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gweithle.	5. Gweithredu a monitro, a) recriwtio
Ymchwilio i ddarparu hyfforddiant Cymraeg a threfnu ei fod ar gael i'r staff	Mae pob aelod o staff yn derbyn cefnogaeth ac anogaeth i ddysgu Cymraeg, ac mae darpariaeth ar gael i gefnogi hyfforddiant yn ariannol o fewn neu y tu allan i'r gweithle.	5. Gweithredu a monitro, a) recriwtio
Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu		
Camau i'w cymryd	Targed a chynnydd	Cyfeirnod y Cynllun Iaith Gymraeg
Gweithdrefnau i sicrhau bod dogfennau Cymraeg a Saesneg yn cael eu llwytho i'r wefan yr un pryd.	Cyflwynwyd hyn erbyn mis Mawrth 2010 ac rydym wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn ers hynny.	4. Wyneb cyhoeddus y sefydliad, dd) Gwefan
Cynnwys y newyddion diweddaraf yn yr Adroddiad Blynyddol am berfformiad y Cynllun Iaith Gymraeg	Oherwydd bod strwythur yr adroddiad blynyddol wedi newid i fod yn Adroddiad ar Effaith a Chyrhaeddiad, bydd y wybodaeth hon yn cael ei darparu ar y wefan yn awr.	8. Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad
Adolygu'r cynllun bob pedair blynedd	Parhaus – i'w gyflawni yn 2014	5. Gweithredu a monitro, dd) Monitro a chyfrifoldeb o ddydd i ddydd

Adroddiad cynnydd 2013		
Camau i'w cymryd	Cynnydd	Cyfeirnod y Cynllun Iaith Gymraeg
Adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd yn 2011/12, sicrhau bod cyd-destun yr iaith Gymraeg yn cael ei ymgorffori	Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Bwrdd Cynghori ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg i ategu ei Hadolygiad o Ofal Preswyl. Mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn aelod o'r bwrdd hwn.	2. Cyflwyno gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg 3. Cyfathrebu â'r cyhoedd
Gwaith monitro a chydymffurfio parhaus gyda'r cynllun: drwy 'hyrwyddwyr' iaith a gwaith monitro ffurfiol	Mae'r sefydliad wedi'i ailstrwythuro yn ystod 2013. Y Cyfarwyddwyr Strategol newydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu timau yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.	5. Gweithredu a monitro, dd) Monitro a chyfrifoldeb o ddydd i ddydd
Hyfforddiant pellach ar loywi ymwybyddiaeth	Amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyn yn y cyfarfod tîm ym mis Ionawr 2014. Mae anghenion hyfforddiant newydd a pharhaus yn cael eu nodi yn ystod y cylch gwerthuso perfformiad blynyddol ym mis Ebrill. Bydd y Cynghorydd Adnoddau Dynol a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad yn canfod hyfforddiant priodol ar gyfer unigolion/timau – ar gyfer dysgwyr newydd neu siaradwyr Cymraeg sy'n dymuno datblygu eu sgiliau. Mae'r cyflogwr yn darparu 100% o'r costau ar gyfer hyn.	5. Gweithredu a monitro, c) Hyfforddiant Cymraeg

Adolygu a gwerthuso'r polisi hysbysebu swyddi	Yn dilyn gweithgarwch recriwtio yn ystod 2013, mae'r protocolau hysbysebu swyddi wedi'u hadolygu a'u gwerthuso; mae hyn wedi cynnwys bwriad y Comisiynydd i dargedu ymgeiswyr sy'n gallu siarad Cymraeg.	
Datblygu brand – y Comisiynydd Pobl Hŷn fel sefydliad dwyieithog	Cynhaliwyd sesiwn Brandio Mewnol ym mis Chwefror 2013 lle cafodd yr holl negeseuon allweddol eu datblygu yn Gymraeg a Saesneg	4. wyneb cyhoeddus y sefydliad, a) hunaniaeth gorfforaethol
Gofyn am farn siaradwyr Cymraeg am ein gwasanaethau a'n cynnyrch	Cyhoeddi cylchlythyr i holi darllenwyr yn 2013 er mwyn helpu i ddatblygu cynnyrch newydd. Wedi'i ohirio tan 2014 oherwydd lansio'r wefan newydd	8. Gweithredu a monitro
Gwaith pellach i ddadansoddi data ar ddefnydd siaradwyr Cymraeg o'n gwasanaethau	Meincnodi ein hymagwedd gydag ymagwedd sefydliadau tebyg erbyn mis Rhagfyr 2013 Gohirio tan 2014 oherwydd y broses ailstrwythuro	
Adolygu'r cymorth a roddir i sicrhau ein bod yn cynnal gwasanaeth Cymraeg cyfartal ac yn ehangu ein darpariaeth pan fydd hynny'n ymarferol	Fel rhan o'r broses ailstrwythuro sefydliadol yn 2013, cafodd pob rôl ei hadolygu er mwyn sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg cyfartal yn cael ei ddarparu pan fydd hynny'n ymarferol. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu yn rheolaidd.	

<p>Adolygu'r gweithdrefnau caffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chanllaw Contractio Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt</p>	<p>Rydym yn parhau i adolygu ein gweithdrefnau caffael yn rheolaidd.</p> <p>Nid ydym yn gosod unrhyw un o'n swyddogaethau statudol fel corff statudol ar gontract allanol.</p> <p>Rydym yn cyfeirio at ein Cynllun Iaith Gymraeg a'n Cynllun Cydraddoldeb ym manylebau ein tendrau, er mwyn sicrhau bod darpar gyflenwyr yn ymwybodol o safonau ein gwasanaeth. Pan fydd gofyniad i gyflenwr ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, fel rhan o gontract, gwaith ymchwil er enghraifft, byddwn yn profi eu hymagwedd arfaethedig tuag at hyn yn ystod y camau llunio rhestr fer a chyfweld, ac enghraifft o hyn fyddai cyfrannu at raglen waith y Comisiynydd.</p>	<p>5. Gweithredu a monitro, d) Cytundebau a threfniadau gyda thrydydd parti</p>
<p>Croesgyfeirio rhwng adrodd ar y Cynllun ac adrodd ar Amcanion Cydraddoldeb</p>	<p>Oherwydd bod Cynllun Cydraddoldeb y Comisiynydd wedi'i ddiweddarau eleni, bydd hyn yn broses parhaus o fis Mawrth 2014.</p>	<p>5. Gweithredu a monitro, dd) Monitro a chyfrifoldeb o ddydd i ddydd</p>

Targedau 2014

Camau i'w Cymryd	Targed	Cyfeirnod y Cynllun Iaith Gymraeg
Adolygu'r cynllun bob pedair blynedd	Cynnal adolygiad llawn a chynhyrchu adroddiad sy'n nodi unrhyw newidiadau i'r Cynllun.	5. Gweithredu a monitro, dd) Monitro a chyfrifoldeb o ddydd i ddydd
Gofyn am farn siaradwyr Cymraeg am ein gwasanaethau a'n cynnyrch	Cyhoeddi cylchlythyr i holi darllenwyr ar ôl lansio'r wefan newydd	8. Gweithredu a monitro
Gwaith pellach i ddadansoddi data ar ddefnydd siaradwyr Cymraeg o'n gwasanaethau	Meincnodi ein hymagwedd gydag ymagwedd sefydliadau tebyg	